**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar Amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2013-14

Tachwedd 2012

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
**www.cynulliadcymru.org**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8409
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cyllid

# Adroddiad ar Amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2013-14

Tachwedd 2012

## Y Pwyllgor Cyllid

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Rôl y Pwyllgor Cyllid yw gweithredu'r swyddogaethau a nodir yn Rheol Sefydlog 19. Mae hyn yn cynnwys ystyried y defnydd o adnoddau gan Gomisiwn y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, ac yn benodol cyflwyno adroddiad yn ystod cylch blynyddol y gyllideb. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwario arian o Gronfa Gyfunol Cymru.

### Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Jocelyn Davies (Cadeirydd)**
Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



**Peter Black**
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Gorllewin De Cymru



**Christine Chapman**
Llafur Cymru
Cwm Cynon



**Paul Davies**
Ceidwadwyr Cymreig
Preseli Sir Benfro



**Mike Hedges**
Llafur Cymru
Dwyrain Abertawe



**Ann Jones**
Llafur Cymru
Dyffryn Clwyd



**Julie Morgan**
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



**Ieuan Wyn Jones**
Plaid Cymru
Ynys Môn

# Y Pwyllgor Cyllid: Adroddiad ar Amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2013-14

Dylid darllen yr adroddiad hwn ar y cyd â llythyr y Cadeirydd at yr Ombwdsmon. Rydym hefyd wedi cynhyrchu atodiad gyda gwybodaeth gefndirol ar y Pwyllgor a'r ymchwiliad hwn.

## 1. Digonolrwydd amcangyfrifon cyffredinol yr Ombwdsmon ar gyfer 2013-2014

### Amcangyfrifon cyffredinol yr Ombwdsmon ar gyfer 2013-2014

1) Roedd tystiolaeth ysgrifenedig yr Ombwdsmon yn nodi ei fod yn amcangyfrif cynnydd 2.5% mewn termau arian parod (cyfystyr ag aros yn yr unfan mewn termau real) ar gyfer 2013-2014. Mae hynny'n golygu cyfanswm o £4,060,000 mewn arian parod net ar gyfer 2013-14.

2) Cwestiynodd y Pwyllgor pam fod yr Ombwdsmon wedi defnyddio ffigurau a ryddhawyd fel rhan o adolygiad Gwariant 2010 yn hytrach na ffigurau diweddaraf Cyllideb 2012. Esboniodd fod hynny oherwydd mai dyma'r ail flwyddyn mewn cynllun cyllideb tair blynedd, yn seiliedig ar ffigurau 2010. Er ein bod yn deall y rhesymeg honno, byddai'n well gennym weld y ffigurau mwyaf diweddar yn cael eu defnyddio yn y dyfodol.

### Cynllunio ar gyfer y dyfodol

3) Mae newidiadau o ran deddfwriaeth, yn enwedig y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol arfaethedig, yn debygol o achosi cynnydd yn llwyth gwaith yr Ombwdsmon. Mae Amcangyfrifon yr Ombwdsmon yn cynnwys cyflogi ymchwiliwr ychwanegol i ymdopi â'r cynnydd hwn.

4) Dyma'r tri newid mae'r Ombwdsmon wedi'u hamlinellu:

a) Ymestyn awdurdodaeth yr Ombwdsmon fel y gall pobl sy'n talu am eu gofal eu hunain (gofal cartref neu breswyl) gwyno wrth yr Ombwdsmon. Ar hyn o bryd, dim ond y rhai sy'n cael gofal wedi'i dalu amdano all gwyno.

b) Newidiadau i'r broses gwyno statudol am wasanaethau cymdeithasol er mwyn ei halinio â'r broses gwyno am wasanaethau iechyd.

c) Bydd cwynion am ofal diwedd oes yn dod o fewn awdurdodaeth yr Ombwdsmon.

5) Amcangyfrifon yr Ombwdsmon - yn seiliedig ar brofiadau yn Lloegr, gallai'r newidiadau arwain at 25 ymchwiliad ychwanegol y flwyddyn.

6) Ystyriodd y Pwyllgor yr amcangyfrif o ran y llwyth gwaith ychwanegol, a phenderfynu bod yr adnoddau ar gyfer staff ychwanegol i ymdrin â hynny yn rhesymol.

**Risg**

7) Roedd y Pwyllgor yn poeni nad oedd darpariaeth ar gyfer rhoi codiad cyflog i staff yn 2013-14 nac mewn blynyddoedd i ddod. Mae cyflogau staff a chostau perthnasol yn cyfrif am ddwy ran o dair o wariant blynyddol yr Ombwdsmon.

*8)* Dywedodd Mr Tyndall bod y cyflogau sy'n cael eu talu gan ei swyddfa yn dilyn graddfeydd llywodraeth leol, felly nid oedd yn rhagweld codiadau cyflog mawr. Dywedodd*:*

> "It would be unreasonable to come to you on the presumption that there might be, say, 2.5% pay increases over each of the next several years. In the current fiscal climate, that does not seem likely. We have tried to make a realistic judgement. However, there is a risk if the unforeseeable happens."[1]

[1] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2012

# 2. Blaenoriaethu

**Gwneud mwy gyda llai**

9) Gwnaeth argraff arnom fod yr Ombwdsmon wedi symleiddio'r broses o ystyried cwynion, gan leihau'r broses o dri cham i ddau.

10) Dywedodd Peter Tyndall:

> "Most Ombudsman offices have three stages in the consideration of each complaint that goes through to a full investigation. There is a process at which the complaint is received and checked; there is a process in which it is assessed to see if it is suitable for investigation; and then there is a process in which it is investigated. My office has two stages, so that the business of receiving the complaint and determining whether to investigate it is undertaken within a single team and generally within 28 days."[2]

11) Roeddem hefyd yn falch o glywed bod y broses newydd hon wedi denu edmygedd gan ombwdsmyn eraill ledled y byd. Dywedodd Peter Tyndall:

> "I should say that we have had people from ombudsman schemes not just in the UK and Ireland, but from around the world, coming to see the way we have structured our investigation process, because the streamlining that we have achieved is something that other people are now looking to take on board."[3]

---

[2] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2012
[3] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2012


**Cynnydd yn nifer y cwynion**

12) Roedd y Pwyllgor yn poeni am allu'r Ombwdsmon i ymdrin â'r cynydd yn nifer y cwynion. Bu cynydd sylweddol o 300% dros saith mlynedd ym maes iechyd.

13) Dywedodd Susan Hudson*:*

> "The complaints we are getting about sectors such as local government, social housing and so on remain pretty much at a constant level; it is only the health complaints that have experienced a sharp rise. It represented some 37% of our caseload last year; previously it was 25% and when the office was in its early days it represented only 15% of our caseload."[4]

14) Cytunodd yr Ombwdsmon i ddarparu nodyn[5] i'r Pwyllgor, yn cynnwys yr ystadegau perthnasol. Mae'r graff isod yn seiliedig ar y nodyn hwnnw. Mae ffigurau 2012-13 yn amcangyfrif sy'n seiliedig ar y data diweddaraf sydd ar gael.




---

[4] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2012
[5] Nodyn i'r Pwyllgor (Saesneg yn unig) http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s10552/Response%20to%20action%20point%20-%20PSO.pdf

## 3. Proses a chyflwyniad

15) Croesawodd y Pwyllgor y gwelliant pellach yn y ffordd y cafodd amcangyfrifon yr Ombwdsmon eu cyflwyno, ac anogodd y swyddfa i barhau gyda'r gwaith hwnnw.

16) Holodd y Pwyllgor yr Ombwdsmon ar sut mae argymhellion ei archwiliad diweddaraf wedi cael eu rhoi ar waith.

17) Dywedodd Mr Tyndall fod un argymhelliad canolig yn cael ei roi ar waith, ac y byddai wedi'i gwblhau yn hwyrach eleni. Dywedodd nad oedd yr argymhellion eraill yn rhai hanfodol ond y byddai'n braf gallu eu rhoi ar waith - mae gwaith yn digwydd ar hynny.

18) Dywedodd Mr Tyndall wrth y Pwyllgor:

> *"We are partway through implementation. The reason we are partway through is because my financial adviser, Malcolm Macdonald, will retire at the end of this financial year, and we want to ensure that Malcolm and his successor are engaged in finalising the documentation of the spreadsheets, but the work is in hand."*[6]

19) Rydym yn cymeradwyo'r Ombwdsmon ar y cynydd a wnaed hyd yn hyn o ran sut mae ei amcangyfrifon yn cael eu cyflwyno, ond rydym yn ei annog i barhau gyda'r gwaith hwnnw i sicrhau fod ei amcangyfrifon blynyddol yn cael eu cyflwyno yn y modd mwyaf eglur a thryloyw posibl.

[6] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 3 Hydref 2012

Peter Tyndall
Public Services Ombudsman for Wales
1 Ffordd yr Hen Gae
Pencoed
Bridgend
CF35 5LJ

Annwyl Peter,

Ar ran y Pwyllgor Cyllid hoffwn groesawu amcangyfrifon yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2013-2014.

Roedd y Pwyllgor o'r farn bod yr amcangyfrifon wedi'u cynllunio a'u hystyried. Cawsant eu cyflwyno mewn modd tryloyw gan ein galluogi i graffu arnynt. Roedd ymwybyddiaeth gadarn o'r risgiau, a gwir deimlad o sefydliad yn llwyddo i wneud mwy gyda llai. Rydym yn annog yr Ombwdsmon i barhau i weithio i wella tryloywder ei adroddiadau, er enghraifft drwy gyhoeddi ystadegau blynyddol am ymchwiliadau a chwynion.

Roeddem hefyd yn falch o glywed bod arloesedd yr Ombwdsmon - system symlach i ddelio ag achosion yn fwy effeithiol ac effeithlon - wedi denu edmygedd gan sefydliadau eraill sy'n delio â llwyth gwaith cynyddol ond yr un lefel o adnoddau. Mae'n enghraifft glasurol o ddarparwr gwasanaethau cyhoeddus yn llwyddo i wneud mwy gyda llai.

Rydym yn ystyried bod amcangyfrifon yr Ombwdsmon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-2014 yn rhesymol ac yn dderbyniol. Ein bwriad yw gosod amcangyfrifon yr Ombwdsmon ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013-2014 heb addasiadau.

Rwy'n diolch i'r tystion ac i'm cyd-aelodau ar y Pwyllgor am eu cyfraniadau adeg ein gwaith o graffu ar amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2013-2014.

**Jocelyn Davies**

**Chair, Finance Committee**

# Y Pwyllgor Cyllid: Gwybodaeth gefndirol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru

**Pwy ydym ni?**

1. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn bwyllgor trawsbleidiol yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru, sy'n cynnwys Aelodau o bob un o'r pedair plaid wleidyddol sydd wedi'u cynrychioli yn y Cynulliad.

2. Nid yw'r Pwyllgor yn rhan o Lywodraeth Cymru. Yn hytrach, mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am adrodd ar gynigion sy'n cael eu gosod gerbron y Cynulliad gan Weinidogion Cymru sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau. Gall y Pwyllgor hefyd ystyried ac adrodd ar unrhyw fater arall sy'n ymwneud â gwariant o Gronfa Gyfunol Cymru, neu sy'n effeithio arno.

**Beth yw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru?**

3. Dyma sut mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn disgrifio ei rôl:

> "Y mae gennyf bwerau cyfreithiol i edrych i mewn i gwynion am wasanaethau cyhoeddus yng Nghymru. Yr wyf hefyd yn ymchwilio i gwynion bod aelodau cyrff llywodraeth leol wedi torri cod ymddygiad eu hawdurdod. Yr wyf yn annibynnol o bob corff cyhoeddus."[1]

**Beth yw amcangyfrifon Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru?**

4. Mae Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn cynhyrchu amcangyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol yn unol â *Deddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005*, fel y'i diwygiwyd gan *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*. Mae gofyn i'r amcangyfrifon bennu pa adnoddau sydd eu hangen ar yr Ombwdsmon i gyflawni ei ddyletswyddau statudol, ac eithrio cyflog yr Ombwdsmon ei hun (a chostau cysylltiedig) sy'n cael eu talu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru.

5. Mae Rheol Sefydlog 20.23 yn nodi:

> "Rhaid i'r Ombwdsmon gyflwyno'r amcangyfrif o incwm a gwariant sy'n ofynnol o dan baragraff 15 o Atodlen 1 i Ddeddf Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus (Cymru) 2005 i'r pwyllgor cyfrifol cyn

[1] Testun o wefan yr Ombwdsmon. http://www.ombudsman-wales.org.uk/cy/amdanom-ni.aspx

> gynted ag y bo'n ymarferol ond heb fod yn hwyrach na 1 Tachwedd ym mhob blwyddyn ariannol beth bynnag."

6. Cafodd amcangyfrifon yr Ombwdsmon ar gyfer 2013-14 eu rhoi i'r Pwyllgor Cyllid ar 25 Medi.

7. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn gyfrifol am adrodd ar y gyllideb ddrafft hon. Mae Rheol Sefydlog 20.24 yn nodi:

> "Rhaid i'r pwyllgor cyfrifol ystyried yr amcangyfrif a'i osod gerbron y Cynulliad heb fod yn hwyrach na 22 Tachwedd, gydag unrhyw ddiwygiadau sy'n briodol ym marn y Pwyllgor, ar ôl iddo ymgynghori â'r Ombwdsmon ac ystyried unrhyw sylwadau a gyflwynwyd ganddo."

**Sut gwnaethom graffu ar y gyllideb ddrafft?**

8. Ystyriodd y Pwyllgor amcangyfrifon yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus ar gyfer 2013-2014 yn ei gyfarfod ar 3 Hydref 2012.

9. Yn y cyfarfod, cawsom dystiolaeth gan:

- Peter Tyndall, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
- Susan Hudson, Rheolwr Polisi a Chyfathrebu
- Malcolm MacDonald, Cynghorydd Ariannol.

10. Ar ôl y cyfarfod, ysgrifenodd Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gyda rhagor o gwestiynau yn deillio o'r dytiolaeth lafar a roddwyd yn y cyfarfod. Ymatebodd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i'r cwestiynau ar 8 Hydref.

**Tystion**

11. Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgCommitteeDetails.aspx?ID=229

*3 Hydref 2012*

| | |
|---|---|
| Peter Tyndall | Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |
| Susan Hudson | Rheolwr Polisi a Chyfathrebu ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |

| | |
|---|---|
| Malcolm MacDonald | Cynghorydd Ariannol ar gyfer Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru |